Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | Dyddiad: | 17 Ionawr 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824706204 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 25 IONAWR 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2016 (copi'n amgaeedig).

**5 RHEOLI GWYBODAETH A RHEOLI TG MEWN YSGOLION** (Tudalennau 17 - 20)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant/ Prif Reolwr Addysg (copi’n amgaeedig) i roi diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â’r adroddiad a rannwyd 28 Medi 2016, a oedd yn rhoi manylion ynghylch Rheoli Gwybodaeth a Rheoli TG mewn ysgolion a gafodd sgôr Sicrwydd “Isel”.

**6 ADOLYGIAD YMARFER PLANT** (Tudalennau 21 - 40)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant (copi’n amgaeedig) i roi diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â’r adroddiad a rannwyd ym mis Gorffennaf 2015, a oedd yn rhoi manylion i’r Aelodau am yr Adolygiad Ymarfer Plant, mewn perthynas â marwolaeth drasig plentyn yn Sir Ddinbych.

**7 Y DIWEDDARAF AR UNO GWASANAETHAU ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT** (Tudalennau 41 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (copi’n amgaeedig) i roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ar uno Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant.

**8 ADRODDIAD RHEOLIADAU ARIANNOL YSGOLION (DIWEDDARIAD)** (Tudalennau 43 - 80)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cyllid/ Rheolwr Adnoddau a Chymorth Addysg (copi’n amgaeedig) i roi diweddariad ynglŷn â rheoliadau ariannol sydd ar draws Ysgolion Sir Ddinbych.

**9 HYSBYSIAD O ARDYSTIAD CYFRIFON 2015/16** (Tudalennau 81 - 226)

Ystyried adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (copi’n amgaeedig) i ddarparu'r Pwyllgor gyda hysbysiad ffurfiol fod y broses ardystio archwilio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei chwblhau.

**10 ADRODDIAD RHEOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 227 - 266)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) ar Reoli Trysorlys.

**11 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 267 - 282)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (copi’n amgaeedig) yn diweddaru aelodau ar y cynnydd o ran Archwilio Mewnol.

**12 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL, RHAGFYR 2016** (Tudalennau 283 - 312)

Ystyried adroddiad gan Reolwr Tîm Cynllunio Strategol / Swyddog Cynllunio Strategol (copi'n amgaeedig) ar reoli Risg Gorfforaethol ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**13 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR GORLLEWIN Y RHYL** (Tudalennau 313 - 330)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd gweithredu'r cynllun gweithredu a oedd yn rhan o adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol a ddaeth yn sgil yr adolygiad o Gynllun Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl Cam 3.

**14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 331 - 334)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi'n amgaeedig).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff "14" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) ei datgelu.

**15 ARCHWILIAD GWASANAETHAU PARCIO – AIL ADRODDIAD DIWEDDARU** (Tudalennau 335 - 344)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad ar y camau adferol a gymerwyd ers cyhoeddi'r Archwiliad Gwasanaethau Parcio ym mis Awst 2016.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Stuart Davies
Peter Duffy
Martyn Holland
Alice Jones
Jason McLellan
Win Mullen-James

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned